

'Eithr Mair'

Crynodeb o Anerchiad y Llywydd Y Gymdeithasfa yn y De, Mai 2018

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, symudodd cynulleidfia Pembroke Terrace Caerdydd i Riwbeina i addoli. Mynychodd Evan Roberts, y diwygiwr yr oedfaon yn aml. Dyma beth ysgrifennodd ar ôl clywed pregeth ar Ioan 20:16

*Ŵyl lili a'i Haleliwia – Iesu
Yn rhosyn ei gyrfa
Wele hon yn nelw ha' –
A'n rabboni'n Rhiwbeina*

Mae hanes Mair Magdalen wedi cael effaith drom ar lawer dros y blynyddoedd ac ysgrifennwyd llawer o lyfrau a chynhyrchwyd sioeau a ffilmiau diri amdani -llawer yn cymryd yn ganiataol taw Mair Magdalen oedd y wraig a olchodd traed Iesu. Yn y 6ed ganrif, cyhoeddodd Pab Gregori 1af taw Mair oedd y wraig yn efengyl Luc pennod 7. A dyma sy'n cyfrif am un arall o gerddi Evan Roberts:

*Mair yr Ŵyl a'i nard a'i dagrau
Mair yr awr ddu: ei chri oer a'i chariad
dewr;
Mair yr Ardd; a'i thafod aur a'i llygaid sêr*
Ychwanegodd:

*'Os â pawb i'w huchelfannau hi, bydd
popeth yn dda.'*

Gallem i gyd ddweud 'Amen' i hwnna, rwy'n siŵr.

Ond yn y calendr diwygiedig yn 1969, dywedwyd taw Gorffennaf 22 oedd diwrnod Mair Magdalen a dim hi oedd y wraig yn Luc 7. Ac ar ôl 1,400 o flynyddoedd, dyna hi!

Ond, yn y cyfamser, bu cannoedd o arlunwyr a cherflunwyr ddefnyddio Mair yn eu campweithiau. Dywedwyd yn ddiweddar gan arbenigwr yn y maes. 'You can always recognise Mary Magdalene. She will be the only one who is horizontal.'

Eithr Mair (Ioan 20:10).

Eithr Mair! Ie, roedd hon yn wahanol. 'Always horizontal.'

Ym mha fodd arall oedd Mair yn wahanol?

Wel, yn gyntaf, Mair a **safodd**. Aeth hi ddim nôl i'r uwch ystafell fel y disgyblion eraill, gan foltio'r drysau a chadw'r byd mâs. Eithr Mair a safodd. Roedd rhywbeth gwell gyda Mair i'w wneud. Roedd hi am ddod o hyd i'r corff. (be careful of what you wish for! Ys gwedai'r Sais) Diolch i'r nefoedd na chafodd hi mo'i dymuniad. Ie, Mair a safodd, aeth hi ddim nôl.



'Yr wyf wedi gweld yr Arglwydd'
Cerflun o Mair Magdalen a Iesu yn
Eglwys Gadeiriol Ely

https://farm4.staticflickr.com/3105/2805924816_4808dc2060_o_d.jpg (CC BY-SA 2.0)

Eithr **Mair a wylodd**. Dywedodd Mathew Henry, Y Diwinydd o Gymro 'You are likely to seek and find, when you seek with affection and through a veil of tears.'

Ydy hyn yn wers inni fel eglwys? Does dim pwynt mynd nôl i'r oruwch ystafell i ogoniant a fu, rhaid chwilio am fwy a rhaid chwilio drwy ein dagrau. Ydyn ni'n llefain digon?

Eithr Mair a safodd; eithr Mair a wylodd. *She is always horizontal.*



Margaret Jones
Cyn-lywydd y Gymdeithasfa yn y De

Eithr Mair a **glywodd**. Fe glywodd ei henw. Ai dyma'r gair pwysicaf yn y Beibl? Y gair 'Mair'? Ai Mair oedd yn chwilio am Iesu, neu Iesu oedd yn chwilio am Mair?

Mae fe'n galw pob un ohonom wrth ein henwau, meddai Eiseia.

Eithr Mair a safodd; Eithr Mair a wylodd; Eithr Mair a glywodd. Eithr Mair a **welodd**.

Cafodd hi'r fraint anhygoel o fod y cyntaf i weld yr Iesu Atgyfodedig. Eithr Mair a welodd. 'Rho inni'r weledigaeth fawr a'n try o'n crwydro ffôl.'

*Os â pawb i'w huchelfannau hi, bydd
popeth yn dda*

Ydyn ni'n barod i efelychu Mair, i fod yn wahanol, 'To be the only one who is horizontal', i wrthod mynd nôl, i fod yn benderfynol o weld Iesu, i wyllo? A chael yr un fraint o gael ei weld?

*Gweld yr Iesu dyna ddigon ar y ffordd i'r
enaid tlawd.*

Llynedd gofynnwyd i sawl un am ei hoff emyn gan Bantycelyn. Dyma fy un i:

*Mae Iesu'n fwy na'i roddion
Mae ef yn fwy na'i ras
Yn fwy na'i holl weithredoedd,
tu fewn ac o'r tu fâs...*

A'r diweddglo:

*Pan elont hwy yn eisiau
Pam byddwyf fi yn drist
Tra caffwyf weled wyneb
Siriolaf Iesu Grist?*

Eithr Mair

- A safodd
- A wylodd
- A glywodd
- A welodd
- **A gyhoeddodd!**

Fe awn ni, hefyd, ati i gyhoeddi'r newyddion da:

Mae'r Iesu yn fyw! Rwyf i wedi ei weld ei!

Margaret Jones,
Cyn-lywydd y Gymdeithasfa yn y De